## ATODIAD A

**Crynodeb lefel camau gweithredu**

- Yn unol â chais y Pwyllgor, darperir crynodeb o newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn isod. Fel y manylir ym mharagraffau 8 a 9, mae'r crynodeb yn adlewyrchu newidiadau i figurau yn y Gyllideb Atodol 2018-19 cyntaf dros 2018-19 (fel y gymharydd blwyddyn i flwyddyn) ac y Gyllideb Derfynol 2018-19 (felly y ffigur gwaelodlin).

***Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 115,709 | 111,113 | (29,000) | 82,113 |

- Pwrpas y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yw cefnogi cyflwyno Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghymru. Caiff y rhan fwyaf o'r gyllideb hon ei defnyddio i gefnogi cyflwyno rhaglenni Hyfforddeiaethau (hyd at 31 Mawrth 2019) a rhaglenni Prentisiaethau. Fodd bynnag, defnyddir elfennau eraill er mwyn cefnogi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru e.e. mentrau cyflogwyr i hwyluso recriwtio dysgwyr ifanc, yn enwedig ar bwyntiau trosglwyddo allweddol mewn addysg.

- Mae'r gostyngiad mewn gwerth o £4.596 miliwn rhwng cynlluniau cyllideb Atodol 19-19 a chyllideb Derfynol 18-19 fel a ganlyn:

    - gostyngiad o £7.596 miliwn yn 19-20 er mwyn rhyddhau cyllid craidd drwy ddefnyddio cyfran uwch o incwm rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop a oedd ar gael yn erbyn y gostyngiad hwn a; Rhyddhawyd hon gan drosglwyddiad o £3 miliwn i BEL Gwariant CCAUC yn 2018-19 ar gyfer prentisiaethau gradd, wedi'u gweithredu yn y Gyllideb Atodol 2018-19 cyntaf.

- Bu gostyngiad o gymharu â chyllideb derfynol 2018-19 (o £29 miliwn). Y ddwy elfen sy'n cyfrannu at y gostyngiad net yw:

- Trosglwyddiad o £24 miliwn i'r BEL Cyflogaeth a Sgiliau er mwyn ariannu rhaglen i ddisodli'r rhaglen Hyfforddeiaethau Gweithio Cymru.

- Trosglwyddiad o £5 miliwn i BEL Gwariant CCAUC mewn perthynas â chyllid lefel gradd er mwyn cefnogi astudiaeth ôl-radd yng Nghymru.

*Cymorth Cyflawni – Cam Gweithredu Sgiliau*

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 648 | 648 | - | 648 |

- Mae'r cyllid hwn yn cyfrannu tuag at ddatblygu negeseuon allweddol a chyfathrebu drwy hysbysiadau a digwyddiadau uchel eu proffil, rhoi cyhoeddusrwydd i gerrig milltir pwysig ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol, ymgyrchoedd uchel eu proffil wedi eu targedu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- Nid oes unrhyw newidiadau wedi bod yn y cynlluniau dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20.

*Cam Gweithredu Polisi Sgiliau*

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 1,061 | 1,061 | - | 1,061 |

- Mae'r cyllid ar gyfer y weithred hon yn cyfrannu tuag at Ymgysylltiad Cyflogwr, sy'n cefnogi prosiectau a arweinir gan gyflogwyr sy'n cefnogi creu a/neu ddiogelu swyddi o ansawdd uchel, cam gweithredu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Sgiliau i bolisi Cyflogaeth a Sgiliau ôl 16.

- Nid fu unrhyw newidiadau i'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20.

*Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau*

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 28,498 | 28,498 | 27,698 | 56,196 |

- Mae'r Weithred Cyflogaeth a Sgiliau yn ariannu datblygu a chyflwyno strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n cynorthwyo pobl i gael gwaith, dychwelyd i waith, aros mewn gwaith a chamu ymlaen mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol er mwyn cynorthwyo busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac yn darparu datrysiadau seiliedig ar y sector a arweinir gan gyflogwyr a datrysiadau

ehangach er mwyn ymateb i'r anghenion sgiliau a ganfuwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n bwysig i economi Cymru.

- Mae'r gyllideb ar gyfer y Weithred Cyflogadwyedd a Sgiliau wedi cynyddu o £27.698 miliwn yn 2019-20 o'i gymharu â chyllideb Derfynol 2018-19. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:

- Trosglwyddiad o £0.548 miliwn o'r BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg ar gyfer Cymwysiadau: Cynnal a Chymorth.

- Trosglwyddiad i mewn o £24m o'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn ariannu disodliad y rhaglen Hyfforddeiaeth.

- Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn o £3.150 miliwn ar gyfer Ford (£1 filiwn), Airbus (£1.5 miliwn) a chynhyrchwyr modurol eraill (£0.650 miliwn), o ganlyniad i gyllid ychwanegol yng nghronfa bontio'r UE.

***Cam Gweithredu Dewisiadau Addysgol a Gyrfa (Refeniw yn unig)***

| **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000** | **Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 £000** | **Newidiadau 2019-20 £000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 £000** |
|---|---|---|---|
| 18,800 | 18,800 | - | 18,800 |

- Mae'r weithred hon yn cynnwys BEL Gyrfa Cymru (is-gwmni sy'n berchen yn llwyr i Lywodraeth Cymru) ac yn cyflwyno gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd cenedlaethol sy'n ddwyieithog a diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru.

- Ni fu unrhyw newidiadau i'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20.